**Cofnodion Fforwm Derbyn Ceredigion a gynhaliwyd yn**

**Ystafell Aeron Fach, Campws Felin-fach**

**ddydd Mawrth, 3 Tachwedd 2015.**

**6.30 pm – 7.00pm**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd Hag Harris (Cadeirydd), Lodwick Lloyd (Llywodraethwr Ysgol), Peter Leggett (Pennaeth Ysgol Padarn Sant).

**Y Swyddogion oedd yn Bresennol:** Barry Rees (Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau), Nia James (Rheolwraig Adnoddau, Y Gwasanaethau Dysgu), Cheryl Evans (Swyddog Data), Kay Davies (Y Gwasanaethau Democrataidd).

**1 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Ymddiheurodd Ana Machado, Carol Davies a David Williams am na fedrent fod yn bresennol yn y cyfarfod.

**2 Materion o Drefn**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac fe gyflwynwyd pawb.

Llongyfarchodd y Cadeirydd Barry Rees ar ei swydd newydd fel Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau.

**3 Datgelu Buddiannau Personol**

Nid oedd dim Buddiannau Personol i'w datgelu.

**4 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mai 2015**

**CYTUNWYD** i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mai 2015 yn rhai cywir.

**5 Materion sy'n codi o'r cofnodion**

9.2. – Hysbysodd y Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau'r cyfarfod fod gohebiaeth ar fin mynd i'r ysgolion ynghylch trefniadau diwedd tymor yr haf sy'n cyd-daro ag wythnos y Sioe Fawr fis Gorffennaf 2016. Caiff yr ysgolion ganllawiau ynglŷn â chofnodi absenoldeb yn ystod y sioe.

**6 Dogfen Wybodaeth ar gyfer Rhieni**

Nodwyd bod Dogfen Wybodaeth y Rhieni ar gael ar wefan y Cyngor a bod pob ysgol wedi cael copi electronig. Does dim newidiadau wedi eu nodi.

**7 Apeliadau ynghylch Derbyn**

Nodwyd nad oedd dim apeliadau wedi dod i law ers y cyfarfod diwethaf.

**8 Y Niferoedd sy'n cael eu Derbyn**

Nodwyd  bod ymgynghoriad yn mynd rhagddo ar Drefniadau Derbyn yr Ysgolion ar hyn o bryd ar gyfer 2017/18. Mae'r ffigurau derbyn diweddaraf a gafodd eu rhannu yn y cyfarfod yn dangos bod rhai ysgolion uwchlaw'r niferoedd a bod rhai islaw.

**9 Y Polisi Derbyn**

Nodwyd y caiff y Polisi Derbyn ei rannu ymhlith y Llywodraethwyr y tymor nesaf ac nad oedd dim newidiadau i'w nodi.

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau'r cyfarfod y bydd ffoaduriaid Syria'n cyrraedd Aberystwyth a Llambed yn y dyfodol agos ac fe nododd o bosib y bydd angen ystyried y sefyllfa o ran y Polisi Derbyn.

**CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth a gafwyd.

**10 Unrhyw Fater Arall**

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 6:30pm, 17 Mai 2016, Ystafell Aeron Fach, Campws Felin-fach.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Fforwm ar 17 Mai 2016**

**Cadeirydd**